Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Templed Datganiad Terfyn Ffïoedd

| Datganiad Terfyn Ffïoedd | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Prifysgol Abertawe |
| Hyd y datganiad terfyn ffïoedd a'r dyddiad y daw i rym | Yn dod i rym ar 1 Awst 2027<br><br>Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd 2027/2028 a 2031/32 gan gynnwys y blynyddoedd hynny. |

| Adran 1 - Iefelau ffïoedd | |
|---|---|
| **Adran 1.1 – Lefelau ffïoedd neu benderfynu ar lefel ffi ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel y ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| Uchafswm y ffi reoleiddiedig | Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd a nodir uchod.<br><br>Lleoliadau:<br>Prifysgol Abertawe – Campws Singleton, Campws y Bae a Champws Caerfyrddin<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd Baglor Anrhydedd<br>• Gradd Gyntaf Uwch (gradd 4 blynedd sy'n arwain at gymhwyster gradd Meistr)<br>• TAR<br>• Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs blwyddyn amser llawn)<br>• Gradd gyntaf mewn Iechyd/Milfeddygaeth neu gymhwysedd ar sail cymwysterau blaenorol i ddechrau'r cwrs ym mlynyddoedd 2 neu 3<br>• Diploma a chymhwysedd ar gyfer Iechyd/Milfeddygaeth<br>• Blwyddyn Sylfaen (mae'r uchafswm ffïoedd rheoleiddiedig yn amrywio gan ddibynnu a yw'r cwrs yn cael ei addysgu yn yr ystafell ddosbarth neu beidio. Bydd tudalennau cyrsiau unigol yn nodi lefel y ffi sy'n berthnasol) |

| | |
|---|---|
| 20% o uchafswm y ffi reoleiddiedig | Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd a nodir uchod.<br><br>Lleoliadau:<br>Prifysgol Abertawe – Campws Singleton a Champws y Bae<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn mewn diwydiant<br>• Gradd Gyntaf Uwch - blwyddyn mewn diwydiant |
| 15% o uchafswm y ffi reoleiddiedig | Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd a nodir uchod.<br><br>Lleoliadau:<br>Prifysgol Abertawe – Campws Singleton a Champws y Bae<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn dramor<br>• Gradd Gyntaf Uwch - blwyddyn dramor |
| Uchafswm y ffi reoleiddiedig | Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd a nodir uchod.<br><br>Lleoliadau:<br>**Cwrs Breiniol** – Coleg Gŵyr, Campws Tycoch, Heol Tycoch, Abertawe SA2 0SF<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd Gyntaf |
| £7,500 | Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd a nodir uchod.<br><br>Lleoliadau:<br>**Cwrs Breiniol** - Coleg Cambria, Ffordd Treffynnon, Llaneurgain, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6AA<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd Sylfaen |

| | |
|---|---|
| Uchafswm y ffi reoleiddiedig | Yn berthnasol i'r blynyddoedd academaidd a nodir uchod.<br><br>Lleoliadau:<br>**Cwrs Breiniol** - Coleg Cambria, Ffordd Treffynnon, Llaneurgain, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6AA<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd gyntaf (gradd sylfaen atodol) |

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Adran 1.2 - Lefelau ffïoedd cyfanredol

**Cyfanswm cost ffïoedd dysgu ar hyd cwrs (ffïoedd cyfanredol)**
Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar ein tudalennau cyrsiau ar ein gwefan, gall myfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffïoedd dysgu neu'r ffïoedd dysgu cyfanredol y byddant yn eu talu ar gyfer y radd o'u dewis (gan ddibynnu ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol i uchafswm y ffi reoleiddiedig gan Lywodraeth Cymru).

Mae cyfanswm y costau astudio'n amrywio ar gyfer pob cwrs a gall fod hawl gennych i gael cymorth ariannol. Gellir cyfrifo cyfanswm y gost fel a ganlyn;

Cyfanswm cost astudio =
Ffïoedd dysgu'r flwyddyn, (gweler tudalen y cwrs) x Nifer y blynyddoedd astudio (gweler tudalen y cwrs) namyn
Ysgoloriaethau neu fwrsariaethau, (os yw'n berthnasol; gweler tudalennau Ffïoedd a Chyllid Israddedig) ac ychwanegu
Costau ychwanegol, (os oes rhai; gweler tudalen y cwrs) ac ychwanegu
Costau byw, (gweler tudalennau Ffïoedd a Chyllid Israddedig ).

Waeth beth fo lefel y ffi, byddwn yn:

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais am fynediad bob blwyddyn i roi gwybod iddynt am y ffïoedd, y trefniadau ar gyfer talu ffïoedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn rhoi gwybodaeth am lefelau ffïoedd am bob blwyddyn o'r rhaglen astudio (er mwyn cyfrifo'r ffi gyfanredol ar gyfer y rhaglen gyfan).
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais i Brifysgol Abertawe am fynediad wedi'i ohirio o'r flwyddyn flaenorol i roi gwybod iddynt am y ffïoedd.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ein myfyrwyr presennol y gallai newidiadau mewn ffïoedd effeithio arnynt os ydynt yn dewis symud i gwrs arall neu os bydd rhaid iddynt ailsefyll, er mwyn iddynt gael yr wybodaeth briodol.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol cyn gynted ag sy'n ymarferol i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i ffïoedd fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru (megis cynyddiadau i ffïoedd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chwyddiant).
- **Mae gwybodaeth am ffïoedd a chostau cysylltiedig ar gael yma**

Yn ogystal â thaliadau ffïoedd dysgu a chostau byw, gall rhai rhaglenni (neu fodiwlau) gynnwys **costau gorfodol neu ddewisol ychwanegol** sy'n angenrheidiol i fyfyrwyr gymryd rhan lawn a chwblhau'r rhaglen o'u dewis. Bydd angen i fyfyrwyr gyllidebu am y costau hyn ar wahân gan nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ffïoedd dysgu cyffredinol. Gall costau o'r fath gynnwys y canlynol, (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):
- Teithiau gwaith maes
- Treuliau teithio ar gyfer lleoliadau gwaith neu astudio

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

- Costau labordai a chyfarpar
- Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n benodol i'r rhaglen

Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid breiniol yn parhau i weithio i leihau nifer a graddfa costau ychwanegol ond **bydd manylion unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe rhaglenni unigol a byddant yn cael eu cynnwys yng ngwybodaeth y rhaglen a anfonir at yr holl ymgeiswyr wrth wneud cynnig iddynt.** Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yma.

## Awdurdodi’r datganiad terfyn ffïoedd (sy’n ofynnol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi’r cais am ddatganiad terfyn ffïoedd, mae’r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau yr ymgynghorwyd yn briodol ag Undeb y Myfyrwyr neu gyrff cynrychioli eraill, gan gynnwys y rhai hynny sy’n astudio gyda’r darparwr a chyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran, a’i fod felly’n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffïoedd arfaethedig a’u heffaith bosib ar fynediad a chynhwysiant.

iii. yn cadarnhau bod costau ychwanegol cyrsiau (e.e. deunyddiau, teithiau maes) yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau o gynnig.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffïoedd hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;


v. yn cadarnhau bod yr <u>holl</u> gyrsiau cymwys y mae terfynau ffïoedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ei ran) wedi’u hystyried yn y datganiad hwn ni waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth;

vi. yn deall bod yn rhaid i unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y datganiad terfyn ffïoedd, fel y’u cymeradwywyd gan Medr, gael eu hanrhydeddu;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau bod copi o’r datganiad terfyn ffïoedd yn gallu cael ei wneud yn hygyrch i’w fyfyrwyr a’i ddarpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan Medr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| **Cais am ddatganiad terfyn ffïoedd i Medr[2]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyo gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | 6 Gorffennaf 2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): |  |
| Dyddiad: | 6 Gorffennaf 2026 |
| **Cais terfynol am ddatganiad terfyn ffïoedd unwaith y bydd Medr wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion pellach (pan fo hynny'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyo gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | 2 Awst 2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): |  |
| Dyddiad: | 2 Awst 2026 |

[2] **Rhaid** i ddatganiadau terfyn ffïoedd a gyhoeddir ar wefannau'r darparwr gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan Medr yn unig.